CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
13 Medi 2017
AM 7.00 O'R GLOCH YN YSGOL BRYNGWRAN

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, I Rowlands, R G Parry, C Ll Thomas, G Parry, S Parry	
YMDDIHEURIADAU: Cyng K Humphreys, C Hughes, E Huws, D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Cyng I Roberts eitem 6.2 Pwyllgor Safonnau Cyngor Ynys Mon
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 26 Gorffennaf 2017. Cyng C Ll Thomas yn cynnig a Cyng R G Parry yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Maes chwarae** - Mae'r meinciau wedi cael eu osod a mae y Clerc wedi cyflwyno cais am grant i cael swing.
4.2	**Lon Salem** - Mae'r Heddlu wedi cynnig gwneud cais ariannol i wneud a diogelwch ar y ffyrdd. Hefyd darllenwyd ymateb i Cyng R G Parry gan Huw Percy Adran Priffyrdd - mae'r Cyngor Sir yn gallu ail-baentio y marciau ffordd ysgol yn ddigon di-drafferth. Bydd angen asesiad cyn ystyried symud yr arwydd 30mya. Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir symud ymlaen gyda paentio ac asesiad.
4.3	**Cynefin (Lon Salem)** - Cytunwyd i tynnu y mater o'r agenda oherwydd bopd pethau yn symud ymlaen gyda'r palmant
4.4	**Capel Salem.** Darllenwyd ymateb gan y Cyngor Sir. Mae'r perchnogion wedi gwneud gwaith i sicrhau bod yr eiddo yn ddiogel.
4.5	**Torri coed y fynwent** - Bydd y Clerc yn trefnu cael un pris a cynigodd Cyng G Parry cael pris arall. Hefyd bydd y Clerc yn cysylltu a "Community Payback" i twtio ochr lon y fynwent. Cytunwyd i cael golwg ar y fynwent ac ystyried llwybr newydd - cyfarfod am 6.45 11.10.17 (cyn ein cyfarfod nesa).
4.6	**Sedd wag** - Mae'r Clerc wedi trefnu i hysbysebu y sedd wâg
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** Cytunwyd i peidio cynnal cyfarfod yn mis Tachwedd a cynnal y cyfarfod ar y 6ed o Rhagfyr. Gofynwyd i'r Clerc cysylltu a'r Heddlu ar RAF i gofyn am eu presenoldeb ar Sul y Cofio 12 Tachwedd. Cytunwyd i cynnig bwyd yn yr Iorwerth ar ôl y gwasanaeth.
	Llofnod…….Cadeirydd 11.10.17

6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Prif Weithredwr
6.1	Sul y Cadeirydd - 08.10.17. Bydd ein Cadeirydd Cyng I Roberts yn derbyn y gwahoddiad
	Swyddog Monitro Pwyllgor Safonnau
6.2	Aelodau Cyngor Tref/Cymuned o Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn - Gwahoddir pob Cyngor Tref a Chymuned i ddewis y ddau ymgeisydd. Cytunwyd i ddewis Iorwerth Roberts a Ken Taylor.
	Cynllunio
6.3	16C193B/DIS Cais i ryddhau amod 02 (Cofnodion Archeoleg) o ganiatad cynllunio 16C193A/VAR yn Treban Farm, Bryngwran - dim sylwadau
6.4	16C45B Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Tai Lon, Bryngwran - dim sylwadau
6.5	**Adran Dysgu**
	Grantiau Cyfalaf - mae cais y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus a mae'r elusen yn cynnig £2524 at ffensio y maes chwarae
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	Unllais Cymru - cyfarfod chwarterol 05.10.17 - bydd ein Cadeirydd Cyng I Roberts yn mynychu y cyfarfod.
7.2	Sul y Maer (Cyngor Dref Llangefni) 01.10.17 - mae ein Cadeirydd Cyng I Roberts wedi derbyn y gwahoddiad
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Gofynwyd i'r Clerc cysylltu a'r Adran Priffyrdd i gofyn am arwydd dim HGV o Capel Engedi lawr at Tan Rallt.
9	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
9.1	Zurich Municipal £472.00
9.2	BDO, Southampton (Archwilwyr Allanol) Darllenwyd llythyr yn gofyn i'r Cyngor newid y ffigurau asedau sefydlog 31.03.16 i £27472 a 31.03.17 i £31597 ac ailgyflwyno'r cyfrifon - cytunwyd i wneud.
10	**Materion ar gyfer y rhaglen nesaf**
10.	Ystyried newid noson y cyfarfodydd misol
	Llofnod…….Cadeirydd 11.10.17